**Rhif: WG54227**

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth

Mawrth 2026

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion a gasglwyd o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y safonau proffesiynol diwygiedig (y safonau) ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i fwriadu ar gyfer yr holl weithwyr addysgol proffesiynol sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys athrawon, athrawon newydd gymhwyso, cynorthwywyr addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, arweinwyr ysgolion ar bob lefel, gan gynnwys prifathrawon, a'r rhai sy'n gweithio mewn rolau arwain yn y system ehangach.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Dysgu Proffesiynol
Yr Is-adran Ymarferwyr Ysgol
Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: AdolygiadSafonauProffesiynol@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maen nhw ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: hyperddolen

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad 4

Y Camau Nesaf 4

Methodoleg a dadansoddiad 4

Proses yr ymgynghoriad 4

Cynllun yr Arolwg 5

Proffil ymatebwyr ar-lein i’r ymgynghoriad 5

Gweithdai 5

Dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad 6

Dadansoddiad meintiol o’r cwestiynau caeedig 6

Dadansoddiad o’r sylwadau ategol 6

Dadansoddiad o adborth i’r gweithdai 6

Cwestiynau’r ymgynghoriad 6

Ymateb Llywodraeth Cymru 27

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

Bydd canfyddiadau’r ymgynghoriad hwn yn llywio’r fersiwn derfynol o’r safonau a fydd yn cael eu lansio yn nhymor y Senedd nesaf, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y gweinidog.

# Y Camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion sydd wedi dod i law trwy’r ymgynghoriad. Os yw cynigion wedi arwain at gwestiynau neu bryderon, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu’r newidiadau sydd angen eu gwneud i’r safonau arfaethedig ac yn nodi’r meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith.

Lle bo’n briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i’r safonau ar sail yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Hefyd, bydd canllawiau ac adnoddau ategol ar gael ar Hwb er mwyn helpu i roi’r safonau ar waith a byddant yn adlewyrchu’r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Yr ymarferiad ymgynghori hwn yw cam cyntaf y newidiadau ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar hyn o bryd i’r gyfres gyfan o safonau ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion. Bydd y gyfres hon o safonau yn cynnwys safonau diwygiedig ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC) sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y safonau diwygiedig ar gyfer SACS yn cael ei gynnal yn nhymor yr hydref 2026, a disgwylir y bydd y safonau yn cael eu lansio ym mis Medi 2027, yn amodol ar gymeradwyaeth y gweinidog.

# Methodoleg a dadansoddiad

Mae’r adran hon yn amlinellu’r dull o gasglu a dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y “Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth”.

## Proses yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros ddeuddeg wythnos, rhwng 3 Tachwedd 2025 a 30 Ionawr 2026.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â’r cynigion polisi, ochr yn ochr â chwestiynau safonol am y Gymraeg, ac fe’i cyhoeddwyd ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i’r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a’u sylwadau ar-lein, mewn e-bost neu mewn llythyr, yn y Gymraeg neu’r Saesneg. Rhannwyd y ddolen i’r ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychioladol, cyrff proffesiynol, sefydliadau sector, Undebau ac awdurdodau lleol.

## Cynllun yr arolwg

Roedd yr holiadur ymgynghori yn cynnwys:

- Pedwar ar ddeg o gwestiynau caeedig yn gofyn am safbwyntiau ymatebwyr ar bob un o'r eitemau data arfaethedig. Roedd y cwestiynau yn gofyn i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig (gan ddefnyddio graddfa Likert). Roedd yr holiadur yn cynnwys blwch sylwadau testun agored ar ôl pob un o'r cwestiynau caeedig er mwyn i ymatebwyr ychwanegu unrhyw sylwadau ategol.
- Roedd yn cynnwys chwe chwestiwn arolwg testun agored er mwyn i ymatebwyr ddarparu adborth a safbwyntiau ar feysydd penodol, neu ddarparu unrhyw adborth nad oeddent wedi gallu ei ychwanegu wrth ateb cwestiynau'r ymgynghoriad.

## Proffil ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 90 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd 73 ar-lein a 17 trwy e-bost. Derbyniwyd ymatebion gan awdurdodau lleol, cyrff annibynnol, ysgolion, sefydliadau addysg uwch, Undebau ac aelodau unigol o'r gweithlu addysg.

Cytunodd saith sefydliad i gyhoeddi eu henwau fel rhan o'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, sef:

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Estyn
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
- Grŵp Cenedlaethol Athrawon Cynghori ar y Blynyddoedd Cynnar
- Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

Roedd yr holl ymatebwyr eraill eisiau aros yn ddienw.

## Gweithdai

Cynhaliwyd wyth gweithdy ymgynghori ledled Cymru yn ystod mis Tachwedd 2025, wedi'u mynychu gan dros 275 o unigolion. Yn eu plith roedd cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch, ymarferwyr mewn ysgolion, athrawon newydd gymhwyso (ANG), mentoriaid sefydlu, arweinwyr sefydlu awdurdodau lleol, Estyn, yr Undebau a chynrychiolwyr o'r awdurdodau esgobaethol. Roedd y sesiynau yn para rhwng dwy a chwe awr.

# Dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

## Cwestiynau’r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1a: Ydych chi’n cytuno bod y strwythur ar gyfer y safonau proffesiynol diwygiedig yn glir ac yn hawdd ei ddeall?**

**Tabl 1: Ymatebion i Gwestiwn 1**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno’n gryf | 13.70% | 10 |
| Cytuno | 68.49% | 50 |
| Anghytuno | 10.96% | 8 |
| Anghytuno’n gryf | 2.74% | 2 |
| Ddim yn gwybod | 4.11% | 3 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cytunodd yr ymatebwyr ei bod yn hawdd defnyddio’r safonau a’r disgrifyddion cysylltiedig. Ym marn llawer o’r ymatebwyr, mae’r safonau a’r disgrifyddion cysylltiedig yn adnoddau da ar gyfer deialog, hyfforddiant a myfyrdod proffesiynol yn ystod cyfnodau gyrfa.
- Credir bod yr aliniad rhwng rolau cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth yn cefnogi twf proffesiynol a sgyrsiau annog. Nododd sawl ymatebydd aliniad da â sefydlu athrawon newydd gymhwyso (ANG) a’r Rhaglen ANG Genedlaethol.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mae rhai ymatebwyr yn credu bod y safonau yn rhy eiriog, yn cynnwys gormod o jargon, a’u bod yn haniaethol, gan arwain o bosibl at ddadrithio.
- Galwadau am esboniadau byrrach, enghreifftiau ymarferol ac enghreifftiau rôl-benodol er mwyn cefnogi dealltwriaeth gyson.
- Nid oes cynrychiolaeth ddigonol i rolau y tu allan i ysgolion, fel arbenigwyr anghenion dysgu ychwanegol (ADY), staff awdurdodau lleol a’r rhai sy’n gweithio y tu allan i’r ystafell ddosbarth.
- Diffyg cwestiynau penodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU).
- Mae perygl o orlwytho os nad oes modd hidlo safonau yn ôl rôl.

### Adborth o’r gweithdai

Roedd adborth o’r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i’r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 1b: Ydych chi'n cytuno bod y strwythur ar gyfer y safonau proffesiynol diwygiedig yn berthnasol i'r anghenion a'r arferion presennol?**

**Tabl 2: Ymatebion i Gwestiwn 1b**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 14.29% | 10 |
| Cytuno | 54.29% | 38 |
| Anghytuno | 20.00% | 14 |
| Anghytuno'n gryf | 7.14% | 5 |
| Ddim yn gwybod | 4.29% | 3 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cytundeb cyffredinol bod y safonau'n berthnasol yn gyffredinol a'u bod yn cyd-fynd yn dda â'r Cwricwlwm i Gymru, addysgeg, dysgu proffesiynol, cydweithredu, ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.
- Nodwyd bod y safonau ar eu cryfaf pan gânt eu defnyddio fel adnodd datblygu yn hytrach na mecanwaith cydymffurfio. Mae ymatebwyr yn pwysleisio y gallai effeithiolrwydd y safonau ddibynnu'n fawr ar ddiwylliant ysgol, ymgysylltiad arweinwyr, ac amser gwarchodedig ar gyfer dysgu proffesiynol.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mae'r safonau yn berthnasol i ysgolion yn bennaf ac nid ydynt yn adlewyrchu'n ddigonol rolau amrywiol y gweithlu addysg e.e. rolau cynghori, rolau arbenigol a rolau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Mynegwyd pryderon am ddileu disgrifyddion ar wahân ar gyfer CALU. Nododd yr ymatebwyr fod disgrifyddion penodol ar gyfer CALU yn hanfodol ar hyn o bryd ar gyfer asesu, cymwysterau ac eglurder y rôl. Gallai'r diffyg gwahaniaeth rhwng athrawon a CALU bylu ffiniau proffesiynol, creu dryswch am gyfrifoldebau, disgwyliadau arweinwyr, a chynnydd, a thanseilio prosesau asesu sefydledig.
- Mae'r safonau yn codi cwestiwn am y broses sefydlu ANG, sy'n broses pasio/methu yng Nghymru. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen meini prawf clir sy'n gyson ar lefel genedlaethol er mwyn diffinio pasio neu fethu. Gallai natur eang a deongliadol y safonau arwain at fwy o anghysondeb ac annhegwch.
- Mae rhai ymatebwyr yn credu bod y safonau yn rhy fanwl a llethol, sy'n cyfyngu ar eu defnyddioldeb ymarferol. Hefyd, codwyd pryderon am gyflymder y newid. Mae llawer yn pwysleisio bod angen canllawiau clir a digon o amser i gyflwyno'r safonau er mwyn osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar ymarferwyr.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 2a: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu?**

**Tabl 3: Ymatebion i Gwestiwn 2a**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 10.00% | 7 |
| Cytuno | 45.71% | 32 |
| Anghytuno | 22.86% | 16 |
| Anghytuno'n gryf | 14.29% | 10 |
| Ddim yn gwybod | 7.14% | 5 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cefnogaeth gyffredinol mewn egwyddor i gynnwys cynorthwywyr addysgu mewn un gyfres o safonau, ochr yn ochr ag athrawon ac arweinwyr ysgolion.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y disgrifyddion ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn rhy amwys neu y gallent gael eu dehongli'n wahanol, yn enwedig o'u cymharu â'r safonau mwy manwl a phenodol ar gyfer athrawon.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod y disgwyliadau yn rhy uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried y ffaith fod rolau cynorthwywyr addysgu yn amrywio, a'r diffyg mynediad at ddysgu proffesiynol.
- Un o'r pryderon mwyaf cyffredin oedd diffyg disgrifyddion ar wahân a chwestiynau cysylltiedig ar gyfer CALU.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn ag a fyddai gan staff cymorth ddigon o amser, cyllid a mynediad â thâl at y dysgu proffesiynol sydd ei angen i ymgysylltu'n ystyrlon â'r safonau.
- Mae perygl y bydd y safonau yn cael eu cymhwyso'n anghyfartal i gynorthwywyr addysgu ac y byddant yn dibynnu ar hyder unigolion neu ddiwylliant ysgolion.

### Adborth o'r gweithdai

Cafodd y safonau groeso brwdfrydig gan y cynorthwywyr addysgu a gymerodd ran yn y gweithdai ymgynghori. Cafwyd galwadau parhaus am ddefnyddio'r safonau a'r disgrifyddion yn amlach ac yn well mewn ysgolion yn y dyfodol, yn hytrach na'r defnydd amrywiol sy'n cael eu gwneud ohonynt ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 2b: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer athrawon?**

**Tabl 4: Ymatebion i Gwestiwn 2b**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 7.94% | 5 |
| Cytuno | 60.32% | 38 |
| Anghytuno | 17.46% | 11 |
| Anghytuno'n gryf | 9.52% | 6 |
| Ddim yn gwybod | 4.76% | 3 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cytundeb cyffredinol bod y safonau yn welliant ar fersiynau blaenorol ac y byddent yn darparu fframwaith cliriach, mwy cydlynol ar gyfer ymarfer myfyriol a thwf proffesiynol.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mae gormod o bwyslais ar rolau yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n bosibl bod angen cydnabod cyd-destunau y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn benodol.
- Mynegwyd pryderon am y diffyg cyfeiriad penodol at y Gymraeg a dwyieithrwydd.
- Mae'n bosibl nad yw'r safonau yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd, athrawon profiadol, a'r rhai sy'n symud ymlaen at arweinyddiaeth neu raddfeydd cyflog uwch.
- Er bod y defnydd o gwestiynau yn cael ei groesawu mewn egwyddor, roedd llawer yn teimlo bod y geiriad presennol yn rhy werthusol (e.e. "Pa mor dda...") a bod perygl iddynt greu sgyrsiau am berfformiad sy'n cael eu sbarduno gan gydymffurfiaeth. Mae ymatebwyr yn argymell bod angen defnyddio iaith sy'n fwy ysgogol a datblygiadol er mwyn cefnogi ymddiriedaeth, llesiant, a deialog broffesiynol go iawn.
- Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod ymarfer myfyriol, cydweithio a dysgu proffesiynol yn gofyn am amser gwarchodedig, adnoddau, cyllid a chyfrifoldeb cyflogwyr. Hebddynt, gallai'r safonau droi'n ymarfer biwrocrataidd arall yn hytrach nag adnodd datblygiadol ystyrlon.
- Gofynnir am ddisgwyliadau cliriach, iaith glir, a chanllawiau ar sut y dylid mynd i'r afael â chwestiynau (e.e. tystiolaeth, myfyrio ansoddol yn hytrach na rhoi sgôr).

## Adborth o'r gweithdai

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 2c: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer arweinwyr yn yr ysgol?**

**Tabl 5: Ymatebion i Gwestiwn 2c**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 9.68% | 6 |
| Cytuno | 71.88% | 46 |
| Anghytuno | 9.38% | 6 |
| Anghytuno'n gryf | 3.13% | 2 |
| Ddim yn gwybod | 6.25% | 4 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Cafwyd consensws cadarn bod y safonau, y cwestiynau a'r disgrifyddion yn briodol ar gyfer arweinwyr yn yr ysgol.
- Cafodd y safonau eu canmol am y ffaith eu bod yn pwysleisio'r canlynol yn briodol:
    - Arweinyddiaeth addysgegol
    - Dysgu proffesiynol
    - Diwylliant, ethos a gwerthoedd ysgolion
    - Cydweithio a chyfrifoldeb ar y cyd
- Roedd yr ymatebwyr yn hoffi'r cwestiynau mwy ysgogol, myfyriol a datblygiadol (e.e. "Allwch chi ddweud wrthyf am adeg..."), sy'n cyd-fynd yn well â'r bwriad a nodir ar gyfer dysgu proffesiynol a thwf.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mynegwyd pryderon na fydd y safonau yn addas o bosibl ar gyfer rolau y tu allan i ysgolion, fel athrawon cynghori, swyddogion gwella ysgolion neu rai rolau ar lefel system, heb eu haddasu.
- Nodwyd bod angen gwahaniaethu cliriach yn ôl rôl a cham gyrfa, gan gynnwys arweinwyr canol, uwch arweinwyr, prifathrawon cynorthwyol/dirprwy brifathrawon, arweinwyr newydd ac arweinwyr profiadol.
- Mae naws werthusol llawer o gwestiynau (e.e. "Pa mor dda ydych chi..."), yn gallu teimlo fel prawf neu farn ar gymhwysedd neu mae'n gallu annog sgyrsiau perfformiadol yn hytrach na datblygiadol.
- Mae rhai ymatebwyr yn credu bod y safonau a'r dogfennau cysylltiedig yn llethol ac yn cynnwys gormod o eiriau, gan nodi y gallent gynyddu pryder yn hytrach na chefnogi ymarfer.

- Cyfeiriodd ymatebwyr at y disgwyliadau afrealistig o bosibl, yn enwedig ar gyfer athrawon uwchradd ac arweinwyr yn yr ysgol sydd â nifer fawr o ddysgwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn gofyn am derminoleg gliriach ac amser ac adnoddau dynodedig ar gyfer ymgysylltu â'r safonau.
- Mynegwyd pryderon am iaith sy'n awgrymu bod unigolion yn gyfrifol am ddysgu proffesiynol, gan fod mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael ei benderfynu i raddau helaeth gan gyflogwyr ac arweinwyr y system.
- Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i brifathrawon ac arweinwyr y system fod yn atebol am alluogi mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol.
- Hefyd, galwodd ymatebwyr am bwyslais cryfach ar gydweithio llorweddol a fertigol, gan sicrhau cysondeb cliriach â disgwyliadau cenedlaethol a lleol.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, ychydig iawn o drafod a fu ar y cwestiwn hwn. Ni roddwyd unrhyw adborth.

**Cwestiwn 2d: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer prifathrawon?**

**Tabl 6: Ymatebion i Gwestiwn 2d**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 9.68% | 6 |
| Cytuno | 69.35% | 43 |
| Anghytuno | 8.06% | 5 |
| Anghytuno'n gryf | 3.23% | 2 |
| Ddim yn gwybod | 9.68% | 6 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r safonau. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod y safonau'n fwy cynhwysfawr ac yn fwy cyson â chyfrifoldebau strategol ac addysgegol prifathrawon. Croesawyd y pwyslais ar weledigaeth, diwylliant, llesiant, arloesi a hunanwerthuso.

Roedd saith ymatebydd allan o 56 yn anghytuno. Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Un thema gyffredin oedd anesmwythder ynglŷn ag iaith a natur y cwestiynau myfyriol. Er bod y syniad o ddefnyddio cwestiynau i gefnogi deialog broffesiynol yn cael ei groesawu, roedd ymatebwyr yn teimlo bod y defnydd cyson o ymadroddion gwerthusol ("Pa mor dda...") yn gwneud i'r safonau deimlo fel prawf neu ymarfer cydymffurfio.
- Mynegwyd pryderon bod y safonau wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer staff ysgolion ac nad ydynt yn addas ar gyfer rolau y tu allan i ysgolion, fel athrawon cynghori, arweinwyr y system, neu swyddogion gwella ysgolion.
- Mae'r safonau yn uchelgeisiol ond yn afrealistig o ystyried y pwysau presennol. Nododd ymatebwyr fod rolau prifathrawon eisoes yn orfeichus heb ddigon o amser, cyllid a chapasiti, a allai danseilio dichonoldeb disgwyliadau.
- Hefyd, roedd ymatebwyr yn cwestiynu a yw'r safonau yn adlewyrchu'n ddigonol y gwahaniaethau rhwng prifathrawon newydd, darpar brifathrawon, prifathrawon dros dro a phrifathrawon profiadol, a'u cynnydd a'u haeddfedrwydd proffesiynol dros amser.
- Pwysleisiodd rhai ymatebion yr angen am ganllawiau gweithredu clir, yn enwedig ar gyfer sut mae'r safonau yn rhyngweithio â'r adolygiad o ddatblygiad proffesiynol a'u perthynas â gwella ysgolion.

**Adborth o'r gweithdai**

Mewn un gweithdy a oedd yn cynnwys yr holl brifathrawon o un awdurdod lleol, nodwyd bod y cwestiynau yn ddefnyddiol, yn gefnogol ac yn ddiddorol. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cwestiynau, ac roedd y prifathrawon a gymerodd ran wedi gwneud awgrymiadau amrywiol ar gyfer eu defnydd ymarferol. Nid oedd llawer o bwyslais ar gydymffurfiaeth yn y gweithdy, ac roedd cyfle da i brifathrawon ymchwilio i lwyddiannau a heriau yn eu rôl.

Nid oedd cyfranogwyr y gweithdai eraill wedi myfyrio llawer ar y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 2e: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol ar gyfer arweinwyr systemau?**

**Tabl 7: Ymatebion i Gwestiwn 2e**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 9.52% | 6 |
| Cytuno | 68.25% | 43 |
| Anghytuno | 7.94% | 5 |
| Anghytuno'n gryf | 1.59% | 1 |
| Ddim yn gwybod | 12.70% | 8 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r safonau ar gyfer arweinwyr y system, gyda chymeradwyaeth gadarn o'u pwyslais ar arweinyddiaeth strategol, ymarfer moesegol, cydweithio, a gwella'r system gyfan.
- Mae llawer o ymatebwyr yn credu bod y safonau yn welliant sylweddol ar fersiynau blaenorol a'u bod yn cyd-fynd yn well â system addysg hunan-wella yng Nghymru.

Ymhlith y chwe ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Absenoldeb diffiniad clir, penodol o 'arweinydd system' a sut mae bod yn arweinydd system yn wahanol i fod yn brifathro neu'n arweinydd mewn ysgol. Byddai eglurder yn gwella cysondeb, defnyddioldeb a thegwch o ran dehongli.
- Er bod croeso cyffredinol i'r defnydd o gwestiynau myfyriol, mynegodd ymatebwyr bryderon bod yr iaith yn rhy werthusol (e.e. "Pa mor dda...") a bod perygl iddynt greu sgyrsiau am berfformiad neu sgyrsiau sy'n codi ofn ar bobl. Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau bod angen mwy o ymadroddion

datblygiadol, ysgogol a myfyriol i gefnogi ymddiriedaeth, twf proffesiynol, a llesiant.

- Mynegwyd pryderon am eglurder iaith, a nodwyd bod rhai disgrifyddion yn rhy gymhleth, cyffredinol neu aneglur.
- Mae'r ymatebwyr yn pwysleisio rôl arweinwyr y system a phrifathrawon wrth hwyluso mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn hytrach na rhoi cyfrifoldeb ar ymarferwyr unigol.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, ychydig iawn o drafod a fu ar y cwestiwn hwn. Ni adawodd unrhyw un adborth.

**Cwestiwn 3a: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol i'w defnyddio yng nghyd-destun y broses sefydlu statudol orfodol (Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG))?**

**Tabl 8: Ymatebion i Gwestiwn 3a**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 6.35% | 4 |
| Cytuno | 49.21% | 31 |
| Anghytuno | 20.63% | 13 |
| Anghytuno'n gryf | 9.52% | 6 |
| Ddim yn gwybod | 14.29% | 9 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cytundeb cyffredinol bod y safonau yn gallu bod yn ddefnyddiol fel fframwaith datblygiadol a myfyriol, yn enwedig ar gyfer deialog broffesiynol rhwng mentoriaid sefydlu ac ANG. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn rhybuddio rhag eu defnyddio fel rhestr wirio neu adnodd cydymffurfio.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Un thema a godwyd yn aml oedd yr angen am ganllawiau cliriach, mwy eglur ar gyfer ANG. Mae ymatebwyr yn awgrymu nad yw safonau lefel uchel ac uchelgeisiol yn ddigonol ar eu pennau eu hunain ar gyfer sefydlu statudol, yn enwedig o ystyried natur pasio/methu'r broses sefydlu. Nodwyd pryderon bod disgrifyddion myfyriol ac amwys yn ei gwneud hi'n anodd i fentoriaid a dilyswyr wneud dyfarniadau teg a chyson.
- Thema arall a godwyd oedd y ffaith nad yw geiriad presennol llawer o'r disgrifyddion yn adlewyrchu realiti athrawon cyflenwi. Mae llawer o ANG yn athrawon cyflenwi am gyfnod tymor byr neu o ddydd i ddydd, yn aml mewn sawl

ysgol, ond yn aml mae'r safonau yn rhagdybio bod ANG yn gweithio mewn un ysgol, yn cyfrannu at y broses o gynllunio'r cwricwlwm ac yn gyfarwydd â gweledigaeth ysgol.

- Nodwyd bod angen gwneud newidiadau bach ond pwysig i'r geiriau (e.e. canolbwyntio ar 'addasu' yn hytrach na 'chynllunio' dysgu neu ddileu cyfeiriadau at "yr ysgol") er mwyn gwneud y safonau yn berthnasol ac yn deg i ANG cyflenwi.
- Nodwyd bod canllawiau cenedlaethol clir a hyfforddiant i fentoriaid yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r safonau mewn ffordd gyson a theg.
- Nododd yr ymatebwyr bod angen llwybr datblygiadol rhwng addysg gychwynnol i athrawon, ANG/gyrfa gynnar, athro profiadol, ac arweinyddiaeth, ac roeddent o blaid sefydlu haen ANG/gyrfa gynnar benodol, neu gerrig milltir cynnydd cliriach oddi mewn i'r safonau.
- Mwy o gysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru a'r Gymraeg. Er bod yr ymatebwyr yn credu'n gyffredinol bod y safonau yn cyd-fynd ag ysbryd y Cwricwlwm i Gymru, roedd llawer o'r farn nad yw'r cysondeb hwn yn ddigon eglur yn y disgrifyddion. Hefyd, mynegwyd pryderon am absenoldeb cyfeiriad penodol at y Gymraeg, er gwaethaf y ffaith fod polisi a disgwyliadau hyfforddiant athrawon yn rhoi lle blaenllaw i'r iaith.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 3b: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn briodol i'w defnyddio yng nghyd-destun dilysu ac achredu fel ei gilydd (er enghraifft ar gyfer Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu a'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth)?**

**Tabl 9: Ymatebion i Gwestiwn 3b**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 7.69% | 5 |
| Cytuno | 40.00% | 26 |
| Anghytuno | 15.38% | 10 |
| Anghytuno'n gryf | 15.38% | 10 |
| Ddim yn gwybod | 21.54% | 14 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y safonau yn cefnogi myfyrdod proffesiynol, ymholiad ac ymarfer moesegol ac yn darparu iaith broffesiynol gyffredin ar gyfer yr holl gamau gyrfa a rhaglenni (e.e. CPCP, TALP). Hefyd, nododd yr ymatebwyr fod y safonau'n addas at ddibenion dilysu, ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddatblygiadol.

- Roedd cefnogaeth eang i egwyddorion a bwriad y safonau, ond consensws cadarn bod eglurder, gwahaniaethu a disgrifyddion rôl benodol, yn enwedig ar gyfer CALU, yn hanfodol os yw'r safonau i weithredu'n gredadwy at ddibenion asesu, achredu a chynnydd, nid myfyrio yn unig.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd yn ymwneud â phrosesau achredu, a nodwyd bod rhaid mynd i'r afael â nifer o faterion er mwyn i'r safonau gael eu hystyried yn addas at ddibenion achredu. Roedd y materion yn cynnwys disgwyliadau cliriach ynghylch pa dystiolaeth sy'n ofynnol, pwy sy'n ei hasesu, a sut mae modd sicrhau cysondeb ledled Cymru.
- Thema arall sy'n codi'n aml yw colli model cynnydd gweladwy ar draws rolau (CA → CALU → athro → arweinydd). Nododd yr ymatebwyr fod camau cynnydd yn llai eglur yn y strwythur diwygiedig a bod CALU yn benodol yn ymddangos yn anweledig yn y fframwaith.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn hwyluso sgyrsiau datblygu anffurfiol?**

**Tabl 10: Ymatebion i Gwestiwn 4**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 13.04% | 9 |
| Cytuno | 69.57% | 48 |
| Anghytuno | 5.80% | 4 |
| Anghytuno'n gryf | 5.80% | 4 |
| Ddim yn gwybod | 5.80% | 4 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cefnogaeth gadarn i ddull gweithredu datblygiadol, myfyriol. Gallai'r safonau gefnogi deialog broffesiynol ystyrlon. Mae ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r

pwyslais ar fyfyrdod, y defnydd o gwestiynau penagored, a’r iaith gyffredin, gan eu hystyried yn gryfderau sy’n hyrwyddo ymddiriedaeth a thwf proffesiynol yn hytrach na beirniadaeth.
- Roedd yr ymatebwyr yn credu’n gryf ym mhotensial y safonau i wella deialog broffesiynol, ond dim ond os ydynt yn cael eu hategu gan hyfforddiant, amser, arweiniad, a mesurau diogelu i sicrhau nad ydynt yn cael eu camddefnyddio.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â’r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn poeni am y tebygolrwydd y byddai’r safonau yn cael eu defnyddio yn ymarferol ar gyfer arfarniad ffurfiol neu adolygiad datblygiad proffesiynol, yn hytrach na sgyrsiau datblygiadol anffurfiol. Mynegwyd pryderon y gallai’r safonau droi’n ymarferiad ticio blwch neu adnodd gwerthuso, gan danseilio eu pwrpas arfaethedig.
- Un thema a godwyd oedd y diffyg sgiliau hyfforddi a mentora ar draws y gweithlu. Nododd yr ymatebwyr na fyddai modd gwireddu potensial y safonau heb hyfforddiant hygyrch (wedi’i ariannu yn ddelfrydol).
- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai modd cynnal sgyrsiau anffurfiol yn rheolaidd mewn gwirionedd, o ystyried pwysau llwyth gwaith. Mae hyn yn berthnasol iawn i staff cymorth, nad oes ganddynt amser gwarchodedig bob tro ar gyfer myfyrio a datblygu. Ym marn yr ymatebwyr, heb neilltuo amser penodedig, ni fyddai modd cynnal sgyrsiau, neu byddai angen eu cynnal y tu allan i oriau gwaith.
- Roedd pryderon nad yw’r safonau’n cynnig llwybrau cynnydd clir ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a CALU profiadol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddiffyg uchelgais, diffyg eglurder i rolau penodol, ac anghydraddoldebau hanesyddol mewn mynediad at adolygiadau ystyrlon o ddatblygiad ar gyfer staff cymorth.
- Nodwyd bod y safonau yn rhy hir, yn rhy llethol neu’n rhy gymhleth, sy’n ei gwneud yn anodd i bobl wybod ble i ddechrau. Cafwyd galwadau am iaith symlach a hawdd ei defnyddio, disgrifyddion cliriach, ac enghreifftiau ymarferol er mwyn cefnogi dealltwriaeth a defnydd.
- Pwysleisiodd yr ymatebwyr y gallai llwyddiant ddibynnu’n helaeth ar arweinyddiaeth a diwylliant ysgol. Nodwyd bod canllawiau clir ar ddefnydd arfaethedig, dysgu proffesiynol cadarn, ac ymrwymiad gan arweinwyr i ymarfer datblygiadol yn hanfodol.

### Adborth o’r gweithdai

Roedd adborth o’r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i’r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 5a: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y disgrifyddion ategol a'r cwestiynau cysylltiedig yn gefnogol ac yn ddatblygiadol?**

**Tabl 11: Ymatebion i Gwestiwn 5a**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 13.04% | 9 |
| Cytuno | 52.17% | 36 |
| Anghytuno | 26.09% | 18 |
| Anghytuno'n gryf | 5.80% | 4 |
| Ddim yn gwybod | 2.90% | 2 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod bod y safonau wedi'u bwriadu i fod yn gefnogol, yn fyfyriol ac yn ddatblygiadol yn hytrach na bod yn seiliedig ar gydymffurfiaeth. Fodd bynnag, roedd llawer yn pryderu y gellid dehongli'r safonau fel ymarferiad gwerthuso neu restr wirio ar gyfer arfarnu neu reoli perfformiad, gan danseilio eu bwriad datblygiadol.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Gallai effaith y safonau ddibynnu'n fawr ar ddiwylliant ysgol, agweddau arweinwyr, ac ansawdd deialog broffesiynol. Heb ganllawiau cenedlaethol clir, mae ymatebwyr yn poeni y bydd amrywiaeth eang yn y ffordd y mae'r safonau'n cael eu cymhwyso, gan arwain at anghysondeb.
- Roedd cefnogaeth eang i fwriad y safonau, ond mynegwyd pryderon am eu gweithredu, ac am degwch, cynnydd, ac adnoddau. Roedd yr ymatebwyr yn poeni y gallai'r safonau fod yn berfformiadol yn hytrach na thrawsnewidiol oni cheir canllawiau cliriach, gallu annog cryfach, llwybrau cynnydd penodol, a buddsoddiad gwirioneddol mewn amser a hyfforddiant.

### Adborth o'r gweithdai

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 5b: Ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y disgrifyddion ategol a'r cwestiynau cysylltiedig yn hyrwyddo ymdeimlad o broffesiynoldeb?**

**Tabl 12: Ymatebion i Gwestiwn 5b**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 11.76% | 8 |
| Cytuno | 66.18% | 45 |
| Anghytuno | 7.35% | 5 |
| Anghytuno'n gryf | 2.94% | 2 |
| Ddim yn gwybod | 11.76% | 8 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Nododd llawer o ymatebwyr fod y gweithlu addysg yng Nghymru eisoes yn dangos ymdeimlad cryf o broffesiynoldeb. Gallai'r safonau atgyfnerthu'r sefyllfa hon ond nid ei chreu o'r newydd. Roedd rhai ymatebwyr yn rhybuddio ei bod yn anodd "profi" neu feintioli proffesiynoldeb ac na ddylid ei fframio fel nodwedd nad yw ymarferwyr yn meddu arni ar hyn o bryd.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Pwysleisiwyd sefyllfa cynorthwywyr addysgu a staff cymorth, gan nodi bod yr iaith a'r disgrifyddion yn cael eu hystyried yn anhygyrch neu'n rhy academaidd yn aml.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am y defnydd o iaith haniaethol neu dechnegol, gan ddadlau y gallai ddadrithio ymarferwyr, a chynorthwywyr addysgu yn benodol. Ar y llaw arall, byddai iaith glir, syml ac enghreifftiau ymarferol yn cefnogi myfyrio mwy ystyrlon.
- Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r dull myfyriol, sgyrsiol, ond roedd eraill yn poeni y gallai'r dull hwn danseilio ymreolaeth broffesiynol os yw'n cael ei weithredu'n wael.
- Gallai effaith y safonau ddibynnu ar sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd ofalus a chydweithredol gyda'r proffesiwn, ynghyd ag argaeledd amser, adnoddau a chyllid digonol.
- Heb yr amodau cywir ar gyfer cyflwyno'r safonau, gallent fod yn rhai uchelgeisiol yn hytrach nag ystyrlon.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 6a: Ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn ysgogi sgyrsiau proffesiynol a fydd yn annog unigolion i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau i'r sector addysg yng Nghymru?**

**Tabl 13: Ymatebion i Gwestiwn 6a**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 7.46% | 5 |
| Cytuno | 56.72% | 38 |
| Anghytuno | 22.39% | 15 |
| Anghytuno'n gryf | 7.46% | 5 |
| Ddim yn gwybod | 5.97% | 4 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mae cytundeb cyffredinol bod y safonau yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol fel y Cwricwlwm i Gymru, cydraddoldeb, cynhwysiant, llesiant, cymhwysedd digidol, a chydweithio. Fodd bynnag, mae llawer o ymatebwyr yn dadlau bod hyn yn elfen ymhlyg yn hytrach nag yn elfen benodol yn aml, gan gyfyngu ar bŵer y safonau i sbarduno dysgu proffesiynol yn gyson ar draws y system.
- Un thema gyson yw pryder am absenoldeb disgrifyddion penodol yn ymwneud â datblygu a defnyddio'r Gymraeg. Nodwyd mai amryfusedd yw hwn o ystyried pwysigrwydd statudol a strategol y mater hwn yng Nghymru, a nodwyd bod safonau blaenorol wedi gwneud hyn yn fwy effeithiol ac y dylid ymgorffori'r Gymraeg ym mhob un o'r pum safon.
- Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod gan y safonau'r potensial i ysgogi sgyrsiau proffesiynol ystyrlon sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn dibynnu ar arweinyddiaeth gadarn, dealltwriaeth gyffredin, a diwylliant proffesiynol cefnogol. Heb yr elfennau hyn, mae perygl y bydd sgyrsiau yn arwynebol neu'n anghyson.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd pryderon nad yw'r safonau yn cydnabod yn ddigonol yr ystod lawn o rolau, yn enwedig cynorthwywyr addysgu a CALU. Heb eglurder rôl-benodol, gall sgyrsiau proffesiynol eithrio neu ymyleiddio staff cymorth, gan atgyfnerthu anghydraddoldebau presennol oni bai bod arweinwyr yn hyrwyddo ymarfer cynhwysol yn weithredol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio nad safonau ar eu pennau eu hunain yw'r ateb. Mae defnydd effeithiol o'r safonau yn dibynnu ar amser, cyllid, hyfforddiant

a mentora. Roedd rhai ymatebwyr am i'r safonau fod yn orfodol er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 6b: Ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifyddion ategol yn galluogi'r agenda gwella ysgolion sy'n datblygu?**

**Tabl 14: Ymatebion i Gwestiwn 6b**

| Categori ymateb | Canran yr ymatebion | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | 7.46% | 5 |
| Cytuno | 53.73% | 36 |
| Anghytuno | 25.37% | 17 |
| Anghytuno'n gryf | 4.48% | 3 |
| Ddim yn gwybod | 8.96% | 6 |

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cefnogaeth gadarn a chyson bod y safonau'n hyrwyddo ymarfer myfyriol, ymholiad, cydweithio, a dysgu proffesiynol parhaus. Mae llawer o ymatebwyr yn credu bod yr elfennau hyn yn ganolog i system ysgol "hunan-wella" a'u bod yn sbardun cadarnhaol ar gyfer gwelliant os ydynt yn cael eu hymgorffori'n ystyrlon mewn ymarfer bob dydd yn hytrach na'u trin fel ymarferiad cydymffurfio.
- Er bod llawer yn credu bod y safonau yn gallu helpu i wella ysgolion, mae'r safbwynt hwn yn cael ei fynegi mewn ffordd amodol yn aml. Nodir bod eu heffaith yn dibynnu ar sut maent yn cael eu hymgorffori mewn dysgu proffesiynol a gwaith cynllunio gwelliannau ochr yn ochr ag ymrwymiad a dealltwriaeth gan arweinwyr yn yr ysgol.
- Mynegwyd optimistiaeth ofalus y gallai cynnwys arweinwyr y system wella cysondeb rhwng rhanddeiliaid a chefnogi cydlyniant. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen gwneud y canlynol er mwyn gwireddu'r dyhead hwn:
    - sicrhau bod y safonau yn cyd-fynd â fframweithiau cenedlaethol a lleol.
    - sicrhau eu bod yn cysylltu'n glir â'r adolygiad o ddatblygiad proffesiynol a chanllawiau gwella ysgolion.
    - sicrhau bod y broses o weithredu'r safonau yn osgoi bod yn faich biwrocrataidd.

Ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, y themâu a godwyd amlaf oedd:

- Mae'n ymddangos bod ymatebwyr yn amau effeithiolrwydd y safonau os ydynt yn creu llwyth gwaith ychwanegol, yn dod yn berfformiadol, neu'n gweithredu ar wahân i fframweithiau gwella ehangach.
- Nododd yr ymatebwyr nad yw'r disgrifyddion yn ddigon eglur a phenodol. Ymhlith y pryderon a godwyd oedd y ffaith fod rhywfaint o amwysedd yn golygu bod y safonau'n llai uchelgeisiol, a'r ffaith fod disgrifyddion aneglur yn arwain at ddehongliad anghyson.
- Mynegodd rhai ymatebion bryder nad yw'r safonau yn sbarduno nac yn galluogi deialog broffesiynol yn ddigonol o ran disgwyliadau ar gyfer y Gymraeg. Mae hyn yn cael ei ystyried yn esgeulustod sylweddol o ystyried dyletswyddau statudol y Gymraeg a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 7: A oes unrhyw ddisgrifyddion sy'n aneglur, y dylid eu newid neu sydd ar goll?**

Roedd hwn yn gwestiwn penagored; cyflwynir crynodeb o'r ymatebion isod.

- Nododd sawl ymatebydd fod themâu allweddol llesiant a diogelu naill ai'n absennol neu'n cael eu mynegi'n wael. Mae hyn yn cynnwys llesiant disgyblion, llesiant staff, rheoli ymddygiad, ac agweddau at ddysgu. Mae ymatebwyr o'r farn fod llesiant yn elfen sylfaenol o addysgu a dysgu ac yn dadlau ei fod yn gwarantu disgrifyddion penodol, wedi'u geirio'n glir, yn hytrach na bod yn elfen sydd ymhlyg neu sydd wedi'i hymgorffori'n anuniongyrchol.
- Mynegwyd pryderon nad yw datblygiad y Gymraeg ac arferion dwyieithog yn cael eu hymgorffori'n ddigonol, er eu bod yn flaenoriaeth statudol a chenedlaethol. Nododd yr ymatebwyr ddiffyg disgrifyddion Cymraeg ar gyfer rolau, diffyg cyfeiriad at y Cwricwlwm i Gymru, ac anghysondebau rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r safonau.
- Un thema a godwyd yw'r ffaith fod y disgrifyddion yn canolbwyntio'n ormodol ar ysgolion ac ystafelloedd dosbarth, gan gyfyngu ar eu perthnasedd i athrawon ymgynghorol ac athrawon arbenigol, athrawon cyflenwi ac ANG, cynorthwywyr addysgu a CALU cyflenwi. Gofynnodd yr ymatebwyr am wahaniaethu cliriach rhwng rolau, cydnabyddiaeth benodol o ddylanwad y safonau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ac adfer neu ddatblygu disgrifyddion ar gyfer reolau penodol (e.e. ar gyfer CALU).
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at ddiffyg cynnydd rhwng camau gyrfa, gan nodi nad oes gwahaniaeth clir rhwng ymarferwyr newydd, profiadol ac uwch. Mae hyn yn gwanhau cysondeb ag Addysg Gychwynnol Athrawon, sefydlu, a chymorth gyrfa gynnar, ac yn lleihau defnyddioldeb y safonau ar gyfer deialog broffesiynol strwythuredig a chynllunio ar gyfer cynnydd.
- Nodwyd bod y disgrifyddion ar gyfer pob rôl yn cynnwys gormod o eiriau, yn amwys, neu'n agored i ddehongliad, gan ddefnyddio iaith academaidd neu amhenodol. Mae hyn yn codi pryderon am ddehongliad anghyson, baich llwyth

gwaith, a'r ffaith ei bod yn anodd profi ymarfer. Gofynnodd ymatebwyr am iaith gliriach, symlach a strwythur tynnach.

- Roedd cefnogaeth gadarn ar gyfer cynnwys enghreifftiau diriaethol sy'n dangos sut mae disgrifyddion yn cael eu cymhwyso mewn rolau a chyd-destunau gwahanol. Credir bod yr elfen hon yn hanfodol ar gyfer cysondeb, tegwch, a deialog broffesiynol ystyrlon—yn enwedig ar gyfer cynorthwywyr addysgu, ANG, ac ymarferwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion.
- Cwestiynodd yr ymatebwyr a yw'r safonau yn ymwybodol o lwyth gwaith, yn enwedig llwyth gwaith athrawon sydd ag amserlenni prysur, neu arweinwyr yn yr ysgol.

**Adborth o'r gweithdai**

Roedd adborth o'r gweithdai yn adlewyrchu themâu tebyg i'r rhai a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig.

**Cwestiwn 8: Pa fath o gymorth allai fod o ddefnydd er mwyn i'r safonau gael eu defnyddio'n effeithiol?**

Daeth 59 o sylwadau ysgrifenedig i law mewn ymateb i gwestiwn 8.

Y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

Y thema amlycaf oedd yr angen am eglurder llawn ynglŷn â diben y safonau. Pwysleisiodd yr ymatebwyr dro ar ôl tro bod yn rhaid i'r safonau fod yn adnodd datblygiadol, yn hytrach nag yn fodd o sicrhau atebolrwydd, rheoli perfformiad, neu godi cyflogau.

Heb sicrhau arweiniad a hyfforddiant cadarn, mynegwyd pryderon y gallai'r safonau fod yn ddim byd mwy na rhestr wirio. Rhybuddiodd llawer o ymatebwyr yn erbyn dulliau rhestr wirio a'u defnyddio i gwblhau arfarniad beirniadol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus i weld enghreifftiau clir o arferion da. Roedd yr ymatebwyr eisiau gweld enghreifftiau bywyd go iawn ac astudiaethau achos ar gyfer pob un o'r rolau gwahanol (h.y. athrawon, cynorthwywyr addysgu, CALU, arweinwyr). Nododd llawer o ymatebwyr nad yw cwestiynau myfyriol yn unig yn ddigonol heb bwyntiau cyfeirio ar gyfer ansawdd a thrylwyredd.

Cafwyd galwadau i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r safonau yn effeithiol. Ymhlith y pwyntiau allweddol a godwyd roedd negeseuon cyson ar lefel genedlaethol, dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb (nid ar-lein yn unig) a rhaglenni treigl i fynd i'r afael â throsiant staff ac arweinwyr. Credir bod dysgu proffesiynol yn hanfodol er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin ac osgoi'r posibilrwydd o gamddefnyddio'r safonau.

Hefyd, pwysleisiodd yr ymatebwyr fod ymgysylltu ystyrlon yn gofyn am amser gwarchodedig ar gyfer sgyrsiau proffesiynol ac amser rhyddhau wedi'i ariannu, yn enwedig ar gyfer mentoriaid (Addysg Gychwynnol Athrawon, ANG/Gyrfa Gynnar). Heb amser a chyllid, mae perygl y bydd y safonau yn troi'n faich ychwanegol yn hytrach nag yn fodd o gynorthwyo datblygiad.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, ychydig iawn o drafod a fu ar y cwestiwn hwn. Ni adawodd unrhyw un adborth.

**Cwestiwn 9: A oes effeithiau eraill i'r cynigion hyn yr hoffech sôn amdanynt?**

Daeth 50 o sylwadau ysgrifenedig i law mewn ymateb i gwestiwn 9. Y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

- Roedd cefnogaeth gadarn i'r safonau fel modd o gynnal deialog broffesiynol fyfyriol, ond nid fel rhestrau gwirio perfformiad.
- Roedd galwadau am ganllawiau cenedlaethol clir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau defnydd cyson o'r safonau ledled Cymru.
- Roedd galwadau am amser gwarchodedig (e.e. diwrnodau HMS) ac adnoddau digonol ar gyfer dysgu proffesiynol ystyrlon.
- Codwyd pryderon am absenoldeb unrhyw gyfeiriad penodol at y Gymraeg, sy'n tanseilio'r agenda Gymraeg ehangach.
- Nodwyd bod llythrennedd a rhifedd wedi'u hepgor, tra bod sgiliau digidol wedi'u henwi'n benodol, er gwaethaf y ffaith fod llythrennedd yn flaenoriaeth genedlaethol.
- A yw lefel y safonau yn cael eu hystyried yn rhy uchel ac uchelgeisiol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac ymarferwyr gyrfa gynnar?
- Dymuniad i gynnwys diogelu yn unol â'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a'r Codau a'r arferion proffesiynol eraill.
- Nodwyd dymuniad i sicrhau mwy o gysondeb â chanllawiau gwella ysgolion, cyflogau ac amodau, prosesau adolygu datblygiad proffesiynol, a rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a llwybr dysgu cynorthwywyr addysgu.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, dim ond trafodaeth a gafwyd am hyn. Ni roddodd unrhyw un adborth.

**Cwestiwn 10: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Daeth 48 o sylwadau ysgrifenedig i law mewn ymateb i gwestiwn 10. Y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

- Roedd yr ymatebwyr yn pryderu am ddileu disgrifyddion Cymraeg pendant ar gyfer rolau penodol, ac roedd llawer yn teimlo y gallai hyn fod yn gam yn ôl o safonau blaenorol.
- Mynegwyd pryderon nad yw datblygiad y Gymraeg ac arferion dwyieithog yn cael eu hymgorffori'n ddigonol, er eu bod yn flaenoriaeth statudol a chenedlaethol. Nododd yr ymatebwyr ddiffyg disgrifyddion Cymraeg ar gyfer rolau, diffyg

cyfeiriad at y Cwricwlwm i Gymru, ac anghysondebau rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r safonau.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, ychydig iawn o drafod a fu ar y cwestiwn hwn. Ni adawodd unrhyw un adborth.

**Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynigion er mwyn: sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Daeth 48 o sylwadau ysgrifenedig i law mewn ymateb i gwestiwn 11. Y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

- Mynegwyd pryderon nad yw'r safonau arfaethedig yn rhoi digon o sylw neu sylw penodol i'r Gymraeg. Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau bod y Gymraeg yn flaenoriaeth genedlaethol sydd angen ei chynnwys yn glir ym mhob safon, yn hytrach nag yn elfen ymhlyg neu'n elfen sy'n gyfyngedig i ddysgu proffesiynol.
- Nodwyd bod dwyieithrwydd ac ymarfer Cymraeg yn gyntaf dilys, yn hytrach na dibynnu ar gyfieithu, yn hanfodol ar gyfer tegwch, ansawdd a hygrededd.
- Roedd galwadau am lwybrau dysgu proffesiynol clir yn y Gymraeg a phryderon am y gallu presennol i gynnwys y Gymraeg ar draws y cwricwlwm a'r angen i gynllunio a hyfforddi'r gweithlu.
- Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i'r Gymraeg fod yn rhan o addysgeg ac nid dysgu proffesiynol yn unig.
- Hefyd, gofynnwyd am astudiaethau achos ymarferol, disgrifyddion, a chanllawiau er mwyn dangos enghreifftiau o ymarfer da o ran y Gymraeg mewn cyd-destunau, rolau, rhanbarthau a chefndiroedd dysgwyr amrywiol.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, ychydig iawn o drafod a fu ar y cwestiwn hwn. Ni adawodd unrhyw un adborth.

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Daeth 32 o sylwadau ysgrifenedig i law mewn ymateb i gwestiwn 12. Y pwyntiau a godwyd amlaf oedd:

- Un thema a godwyd oedd y ffaith bod y safonau yn rhy haniaethol, uchelgeisiol ac agored i ddehongliad, yn enwedig ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon, ANG, staff cymorth a defnydd rheoleiddiol. Roedd galwadau am ddisgrifyddion ymarfer mwy clir a phenodol, llai o ddibyniaeth ar awgrymiadau myfyrio yn unig, ac enghreifftiau ymarferol i gefnogi dehongliad cyson ledled Cymru.

- Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau nad yw un fframwaith gydol gyrfa yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng yr haenau gwahanol o ymarferwyr, o athrawon dan hyfforddiant hyd at arweinwyr ac arweinwyr system.
- Er bod nifer o ymrwymiadau cenedlaethol wedi'u cydnabod, roedd llawer o ymatebwyr yn gofyn am fwy o gyfeiriad at arferion gwrth-hiliol ar draws gyrfa, addysgeg gynhwysol, hawliau plant i gyfranogi, a thlodi a diogelu.
- Nodwyd bod yn rhaid i gapasiti, amser, mentora o ansawdd uchel, negeseuon cenedlaethol cyson a hyfforddiant ar gyfer arweinwyr ysgolion fynd law yn llaw â'r safonau. Roedd amheuaeth, ar sail profiadau'r gorffennol, y gellid defnyddio'r safonau at ddibenion atebolrwydd neu'r adolygiad o ddatblygiad proffesiynol.
- Ar y cyfan, mae ymatebwyr yn cefnogi uchelgais y safonau, ond maent yn poeni mai cyfyngedig fydd effaith y fframwaith o bosibl heb fwy o eglurder, gwahaniaethu a chymorth i'w weithredu.

**Adborth o'r gweithdai**

O ystyried cynulleidfa'r gweithdai, ychydig iawn o drafod a fu ar y cwestiwn hwn. Ni adawodd unrhyw un adborth.

# Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o’u hamser i ymateb i’r ymgynghoriad hwn. Mae’r safbwyntiau a’r dystiolaeth sydd wedi’u darparu yn bwysig wrth lywio penderfyniadau ar y safonau ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.

Gan mai adroddiad cryno yw hwn, nid oes modd adlewyrchu pob pwynt unigol a godwyd gan yr ymatebwyr. Mae’r holl ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus, ac nid yw absenoldeb materion neu awgrymiadau penodol yn yr adroddiad hwn yn golygu eu bod wedi’u hanwybyddu.

Yn dilyn dadansoddiad llawn o’r ymatebion i’r ymgynghoriad, mae’n amlwg bod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno â’r safonau arfaethedig a’u haddasrwydd ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Roedd bron i 70% o’r ymatebwyr naill ai’n cytuno’n gryf neu’n cytuno â’r cynigion.

Gan ystyried yr holl adborth i’r ymgynghoriad, mae’n amlwg bod y geiriad a’r iaith a ddefnyddir yn y safonau yn cael eu hystyried yn briodol, yn hygyrch ac yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod ein gweithwyr addysg proffesiynol yn rhannu iaith a geirfa sy’n dechnegol ac yn gymhleth ac sy’n cynnwys terminoleg broffesiynol gymhleth. Derbynnir bod rhai disgrifyddion yn y safonau yn gymhleth – ond mae’r gorgyffwrdd a’r rhyng-gysylltiad yn fwriadol, gan roi cyfle i symud rhwng disgrifyddion yn ddi-dor mewn sgyrsiau proffesiynol ac mewn adolygiadau o ddatblygiad proffesiynol. Un o brif fanteision y safonau yw’r ffaith eu bod yn annog ymarferwyr unigol i ystyried eu twf a’u datblygiad parhaus yn eu rôl eu hunain ac ystyried yn ofalus effaith eu hymarfer ar eu dysgwyr.

Nod y system addysg sy’n esblygu yng Nghymru yw sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio rhwng ysgolion mewn ffordd gydweithredol a hyblyg. Mae’r safonau diwygiedig yn adlewyrchu hyn yn fwriadol, gan gynnig cyfleoedd i unigolion fyfyrio ar agweddau gwahanol ar eu rolau mewn cyd-destunau gwahanol a phenderfynu ar eu hanghenion dysgu proffesiynol at y dyfodol a’u dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Mae’r cwestiynau ysgogi yn y safonau yn ychwanegiad newydd, a’u nod yw gwerthuso yn hytrach na gofyn am ymatebion deuaidd. Mae’r cwestiynau ysgogi yn ffordd o ddechrau’r sgwrs broffesiynol. Daeth y broses beilot genedlaethol, a gynhaliwyd ar y cyd â’r ymgynghoriad, i’r casgliad bod y cwestiynau ysgogi yn cael eu hystyried yn fodd o hwyluso ymateb a datblygu ymddiriedaeth. Roedd yr un ymateb yn amlwg yn y gweithdai ymgynghori lle bu cyfranogwyr yn ymarfer defnyddio’r cwestiynau ysgogi ac yn lleisio eu myfyrdodau cadarnhaol ar y sgyrsiau canlyniadol a’r cyfeiriadau newydd i’w trafod a’u harchwilio a ysgogwyd gan y cwestiynau.

Mae’n bwysig nodi nad oes disgwyl i unrhyw ymarferydd fynd i’r afael â’r holl ddisgrifyddion bob blwyddyn – byddai hynny’n afrealistig. Y bwriad yw dewis detholiad o ddisgrifyddion ar draws pob un o’r pum safon sy’n berthnasol i’r unigolyn, yng nghyd-destun ei ysgol ac sy’n adlewyrchu anghenion ei awdurdod lleol.

Codwyd nifer o faterion yn gyson yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, gan gynnwys gwrth-hiliaeth, y Gymraeg, safonau penodol ac ar wahân ar gyfer rolau penodol, a chyfyngiadau amser. Mae angen archwilio pob un o’r materion hyn ymhellach, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ag ymarferwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried a’u cynnwys yn y fersiwn derfynol o’r safonau. Er mwyn cyflwyno’r safonau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydweithio ag ymarferwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu ystod o ganllawiau ac adnoddau ategol. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu cefnogi gan raglen o ddigwyddiadau ymgysylltu cenedlaethol, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol.

Yn amodol ar benderfyniadau terfynol y Gweinidog, rydym yn bwriadu rhoi’r safonau newydd ar waith o 1 Medi 2026.